**Catholic Bishops' Conference of England and Wales**
**HOME MISSION SUNDAY: 21 SEPTEMBER 2014**

# PARISH COVER LETTER – WELSH TRANSLATION

*Supporting ministry and outreach to non churchgoing (lapsed) Catholics*

**Llythyr cyflwyno i'r plwyfi**

**SUL Y GENHADAETH GARTREF**
**MEDI 21 2014**

**Thema:** Efengylu 'wrth galon y teulu'.

Gweinidogeth gynorthwyol, a rhaglen o ymestyn tuag at Gatholigion sydd ddim yn mynychu'r gwasanaethau.

Annwyl Dad,

GWEITHGARWCH HOLL BWYSIG AC AR FRYS
'Mae yna lawer o blant a phobl ifainc na fydd fyth yn gweld eu rhieni yn derbyn y sagrafennau,' fel y'n hatgoffir ni yn y ddogfen baratoadol ar gyfer y Synod ar y Teulu a gynhelir cyn bo hir. Mae'n siwr eich bod chi, fel finnau, wedi sylwi ar hyn, ac mae ymchwil yn awgrymu ei fod yn wir ym mywyd 80% o boblogaeth Gatholig Cymru a Lloegr, sydd byth, neu bron fyth, yn mynychu'r Offeren.

GALWAD I GENHADU
Ar Fedi 21 2014 mae esgobion Cymru a Lloegr yn gwadd plwyfi i ddathlu *Sul y Genhadaeth Gartref* er mwyn cymell pob Pabydd sy'n mynychu'r Offeren i ymateb ar frys i'r alwad i genhadu. Gan fod y rheini yn ymdeimlo gyda'r boen a'r tristwch a achosir gan y nifer helaeth o aelodau teuluoedd a chyfeillion sy'n peidio ymarfer eu ffydd, mae yna alw dwys arnon ni i gyd i ystyried o'r newydd sut y gallwn ni gyrraedd at ein brodyr a chwiorydd yng Nghrist yn eu habsenoldeb mewn modd llawn parch a llawenydd. Diolch ichi i gyd am bopeth yr ydych eisoes yn ei wneud yn y maes hwn.

ADNODDAU HWYLUS AM DDIM AR GYFER PLWYFI MEWN PRINT AC AR LEIN
Mae yna gardiau hyrwyddo ar gyfer Sul y Genhadaeth Gartref wedi eu hanfon i'r plwyfi i'w dosbarthu a chyda nhw adnoddau ychwanegol ar lein ar www.catholicnews.org.uk/hms14. Mae'r deunydd sydd am ddim yn cynnwys nodiadau addysgol, gweddiau'r ffyddloniaid, hysbysiad ar gyfer cylchlythyr, tystiolaeth a deunydd fideo. Fel mae'r Pab Ffransis am inni ei wneud, ewch ati i hyrwyddo 'pennod newydd o efengylu' trwy hybu gweddi dros y gwaith a chefnogi plwyfolion i gymryd rhan mewn gweithgarwch o ymestyn allan yn lleol ac yn genedlaethol.

MAE ARNOM ANGEN EICH CEFNOGAETH
Mae'r esgobion yn gofyn am hyrwyddo'r Sul hwn ym mhob plwyf ac am gynnal ail gasgliad gorfodol ar Fedi 21 i gefnogi gwaith yr Esgobion yn y Genhadaeth Gartref. Mae'r cyllid sy'n deillio o hynny yn mynd yn syth i gynnal gwaith Adran Efengylu a Chateceiddio'r Esgobion, a wasanaethir gan un aelod llawn-amser o staff y Genhadaeth Gartref. Mae haelioni eich plwyfi eisoes wedi'n cynorthwyo, gyda phartneriaiad, i wneud camau breision mewn cefnogaeth i'r adran hon o weinidogaethu ac ymestyn allan. I weld cyfanrwydd y gwaith helaeth sydd eisoes ar waith ewch i'r wefan y ceir ei chyfeiriad uchod. Ond mae yna gymaint mwy y gallen ni ei wneud os byddai'r cyllid ar gael. Byddai mwy o bobl yn dychwelyd i ymarfer eu ffydd os byddai'r adnoddau ychwanegol ar gael inni wneud y gwaith o ymestyn.

DIOLCH

Fel un o'r tri casgliad gorfodol y gofynnir amdanynt gan yr esgobion bob blwyddyn, bydd hyn yn gymorth i ddatblygu adnoddau newydd, llwybrau a strategaethau i gynnal ac estyn allan at y miliynau sydd bellach ddim yn weithgar wrth galon teulu'r plwyf. Rydyn ni i gyd yn adnabod rhywun sy'n annwyl inni sydd wedi ymbellhau oddi wrth fywyd y ffydd, ac wrth i Fedi 21 nesau, diolch ichi ymlaen llaw am eich cefnogaeth i'r agwedd hanfodol hon ar ein gweinidogaeth a gwaith.

GYDA DIOLCH, A BENDITH DUW ARNOCH

Esgob Kieran Conry,
Cadeirydd, Adran Efengylu a Chateceiddio Cynhadledd yr Esgobion.

Ymddiriedolaeth Gatholig ar gyfer Cymru a Lloegr, 33 Eccleston Square, Llundain, SW1V 1BX. Ffoto: @Servizio Fotografico de 'L'Observatore Romano' 2014. Cwmni cyfyngedi trwy warant a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Cwmni rhif 4734592. Elusen Gofrestredig Rhif 1097482

With thanks to the translator, Mr Harri Pritchard Jones.

Home Mission Sunday is resourced by the Bishops’ Conference Home Mission Desk in service of the Department for Evangelisation and Catechesis. Email: homemission@cbcew.org.uk  www.catholicnews.org.uk

Catholic Trust for England and Wales, 39 Eccleston Square, London, SW1V 1BX.
A company limited by guarantee and registered in England and Wales. Company No. 4734592 Registered Charity No. 1097482.